

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 2 O Bell Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Llun, 11 Gorffennaf 2022 am 09:30.**

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 22
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 21 01 22 a 02 02 22
4. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol 23 - 26
5. Enwebiad i Banel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 27 - 30
6. Diweddariad Rhaglen Gwaith 31 - 38
7. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwyd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghowrwyr

S Aspey

F D Bletsoe

E L P Caparros

P Davies

Cynghorwyr

P Ford

D M Hughes

M Lewis

J Llewellyn-Hopkins

Cynghorwyr

RL Penhale-Thomas

A Wathan

AJ Williams

R Williams

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD GWENER, 21 IONAWR 2022

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWDYD YN O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD GWENER, 21 IONAWR 2022, AM 09:30

Presennol

Y Cyngorydd AJ Williams – Cadeirydd

S Aspey
JE Lewis

MC Clarke
DBF White

SK Dendy

MJ Kearn

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies, M Jones, AA Pucella, G Thomas a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|--------------------|--|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

1. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democraidd – Craffu, adroddiad oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel gwahoddai i gyfarfodydd y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol.

Eglurodd mai rôl yr Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol yw cynrychioli eu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Cabinet ar eitemau yn ymwneud â phlant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Ychwanegodd fod pob Hyrwyddwr yn y rôl hon yn ystyried sut mae'r holl wasanaethau o fewn cylch gorchwyl Craffu yn effeithio ar blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac yn annog eu Pwyllgor eu hunain i gadw eu rôl Rhianta Corfforaethol mewn cof wrth gymryd rhan mewn Craffu. Gall Hyrwyddwyr gefnogi'r Pwyllgor yn fawr drwy roi gwybod iddynt am waith parhaus Pwyllgor y Cabinet ac yn enwedig unrhyw benderfyniadau neu newidiadau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt fel Rhieni Corfforaethol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn enwebu'r Cyng David White fel yr hyrwyddwr rhianta corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

2. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-23 I 2025-26

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Perfformiad Cyllid a Newid, adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 i 2025-26, sy'n nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb a dargedwyd ar gyfer arbedion angenrheidiol. Mae'r strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2022-2026 a chyllideb referniw ddrafft manwl ar gyfer 2022-23.

Eglurodd fod y Cyngor, ar 24 Chwefror 2021, wedi cymeradwyo cyllideb referniw net o £298.956 miliwn ar gyfer 2021-22. Fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, roedd

rhamcanion cyllideb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd i'r Cabinet bob chwarter.

Amlinellodd y Prif Swyddog - Perfformiad Cyllid a Newid y trosolwg ariannol dros y 10 mlynedd diwethaf a'r gostyngiadau cyllidebol yr oedd eu hangen ar y Cyngor sef cyfanswm o £62 miliwn. Roedd y Tabl yn 4.1.1 yn amlinellu'r gostyngiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Esboniodd, er mai £319.510 miliwn yw cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2022-23, roedd ei wariant cyffredinol yn llawer uwch na hyn. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau oedd yn cael eu hariannu gan grantiau penodol neu ffioedd a thaliadau, amcangyfrifwyd mai tua £480 miliwn oedd cyllideb grynsyth y Cyngor yn 2022-23.

Dywedodd fod y Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran o'r Trethi Annomestig. Ategwyd hyn wedyn drwy gasglu'r dreth gyngor, grantiau eraill a ffioedd a thaliadau. Roedd y dreth gyngor yn dâl yr oedd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i helpu i dalu am eu gwasanaethau. Roedd y swm y mae talwyr y dreth gyngor yn ei dalu yn cynnwys 3 elfen:

- Tâl Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Tâl Cyngor Tref neu Gymuned
- Tâl Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Eglurodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid fod Treth y Cyngor yn ariannu bron i 30% o gyfanswm cyllideb y Cyngor.

Dywedodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid fod y Cyngor wedi parhau i gefnogi addysg, ymyrraeth gynnar, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau lles er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r rhai sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r MTFs yn ailadrodd hynny wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor yn edrych ar gynifer o ffyrdd â phosibl o wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo er mwyn gallu parhau i ddiogelu'r gwasanaethau hyn.

Ychwanegodd y byddai'r Cyngor yn ceisio codi incwm ychwanegol lle bynnag y bo modd, ond bydd cyfleoedd cyfyngedig i wneud hynny o ystyried heriau Covid-19. Byddai'r Cyngor yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau er mwyn darparu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. Roedd arbedion ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys adolygu a rhesymoli cyflenwadau a gwasanaethau'r cyngor.

Eglurodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid fod Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhan sylweddol o ofynion y gyllideb, ac ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod roedd y Cyngor yn bwriadu gwario £78 miliwn ar y maes hwn. Tynnodd sylw hefyd at y Trosolwg Ariannol Corfforaethol o feysydd eraill er gwybodaeth. Tynnwyd sylw at y rhain yn fanwl yn 4.1.1 yr adroddiad ac roeddent yn ymdrin â rhai meysydd allweddol a restrir isod:

- effeithlonrwydd cyffredinol
- arbedion eiddo
- modelau darparu amgen
- Newidiadau i Ddarpariaeth Gwasanaeth
- Addysg
- Gofal Cymdeithasol a Lles
- Newidiadau adrannol

Eglurodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid, oherwydd y cyhoeddiad hwyr ynghylch yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, na dderbyniwyd y setliad dros dro i

Lywodraeth Leol tan 21 Rhagfyr 2021. Roedd y setliad drafft yn nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022-23 ac roedd hefyd yn cynnwys dyraniadau arfaethedig ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Dywedodd mai'r prif ffigur ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2022-23 oedd cynnydd cyffredinol o 9.4 4% ar draws Cymru ac, yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, roedd y cynnydd yn gynnydd o 9.2% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Pwysleisiodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, o fewn y ffigwr setliad hwn, gwrdd â chost cytundeb cyflog athrawon, cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ogystal â chwrdd â'r costau ychwanegol o gyflwyno cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal. Roedd disgwyl o hyd am y manylion ar gyfer hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd, mewn perthynas â'r gronfa caledi, a oedd yr adran wedi dangos dibyniaeth ar y gronfa hon a faint oedd wedi'i hawlio yn y gorffennol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hawliadau sylweddol yn erbyn y gronfa caledi wedi eu gwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol a llesiant. Yn 2020/21 hawliwyd dros £1filiwn mewn perthynas â threfniadau hamdden gyda Halo. Roedd hyn oherwydd y cyfyngiadau oedd ar waith oedd yn effeithio ar Halo gan gynnwys oriau agor a chapasiti yn ogystal â hawliadau a wnaed am gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a rheoli gwasanaethau. O ran symud ymlaen roedd rhai manylion i'w gweithio allan o hyd ond roedd y gyfarwyddiaeth yn hyderus y byddai'n symud i gyllideb gytbwys y flwyddyn nesaf hyd yn oed ar ôl dileu'r gronfa caledi. Ychwanegodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid mai cyfanswm y ffigyrau gyda golwg ar wariant ar ofal cymdeithasol hyd at ddiwedd Rhagfyr o'r gronfa caledi oedd £3.8 miliwn.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw arwydd o'r gronfa galedi yn cael ei chynnig eto yn y dyfodol pe bai cynnydd neu amrywiolyn arall mewn perthynas â Covid-19. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer cronfa galedi bellach ond nad oedd unrhyw ffordd o wybod beth sy'n dod nesaf o ran Covid ac felly beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu. O ran cyllideb, roedd yn bwysig cynllunio fel pe na bai unrhyw gymorth ychwanegol fel y gronfa galedi.

Cyfeiriodd Aelod at SSW1 yn Atodiad 1 yr adroddiad a gofynnodd sut rydym yn paratoi ar gyfer y pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig ag aelodau o'r teulu sydd angen gofal ar fyr rybudd ac weithiau gydag amryfal frodyr a chwiorydd.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hyn yn cael ei wneud drwy edrych ar y data o ran demograffeg h.y. nifer y plant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yna gwneir rhagfynegiadau fesul 10,000 o bobl yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn flaenorol ac yna ffurfir cynllun y gyllideb o gylch hynny ar sail cost unigol.

Gofynnodd y Cadeirydd, mewn perthynas â SSW2 yn yr atodiad, pa fath o bwysau oedd wedi bod ac a oedd modd darparu rhai enghreifftiau yn ogystal â sut yr ymdriniwyd â hwy.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y cyfyngiadau clo hirfaith wedi cael effaith ar iechyd a lles emosiynol a bod y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac wedi datblygu ystod o wasanaethau i gefnogi hyn, o wasanaethau iechyd meddwl rheng flaen ataliol i wasanaethau iechyd mwy aciwt. Mae gwasanaeth ARC sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos wedi gweld cynnydd yn y defnydd. Ychwanegodd fod y Tîm Gofal Cymdeithasol ac Asesu ac Adnoddau hefyd wedi gweld mwy o ddefnydd a bydd angen buddsoddiad pellach; bydd gwybodaeth bellach ar yr agwedd hon hefyd yn cael ei thrafod mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol.

Manteisiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ar y cyfle i ddiolch i weithlu'r trydydd sector oherwydd bod dibyniaeth y cyngor ar wirfoddolwyr wedi bod yn sylweddol gan eu bod wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y pandemig.

Adleisiodd Aelod y sylwadau hyn a dywedodd gan ei fod yn unigolyn oedd yn gwarchod ei hun am gyfnod byr yn ystod y pandemig, ei fod yntau hefyd wedi dibynnu ar wirfoddolwyr ac roedd yn ddiolchgar iawn am y gwaith a wnaed ganddynt. Diolchodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i'r Aelodau am y sylwadau a chytunodd fod y gwaith a wnaed gan y trydydd sector yn werthfawr iawn.

Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â SSW2, beth oedd y pwysau o ran materion staffio a sut oedd lefelau'r staff yn edrych erbyn hyn a sicrhau bod gwasanaeth da yn cael ei gynnal. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod problemau staffio hyd at 16% ar y dechrau ond bod y niferoedd wedi bod yn gostwng yn gyson, yn enwedig yn y misoedd diwethaf ond fel gwasanaeth rydym wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr yn AD i sicrhau bod cymorth wedi bod yn ei le i staff ar absenoldebau afiechyd.

Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â SSW3, a oedd unrhyw ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn sicrhau bod pob aelod staff yn cael eu talu yn ôl y Cyflog Byw Cenedlaethol sef £10.50 yr awr. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd y safon honno a'i fod eisoes wedi gwneud hynny mewn sawl maes.

Gofynnodd y Cadeirydd, mewn perthynas â SSW5, pa mor llwyddiannus oedd yr hyfforddiant mewnol a chost staff asiantaeth i'r gyfarwyddiaeth.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod tîm datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yn dîm arobryn. Cawsant glod am eu rhaglen 'Blwyddyn Gyntaf o Ymarfer' felly roeddent yn ymroddedig iawn i ddeall y pwysau oedd yn ymwneud â recriwtio ar gyfer gwaith cymdeithasol yn enwedig gwaith cymdeithasol yn ymwneud â phlant. Rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau addysg bellach fel Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Ychwanegodd fod y Cyngor yn derbyn grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru sy'n ariannu cyfran fawr o'r gost o ran hyfforddiant, asiantaeth a gwaith cymdeithasol er bod cynnydd wedi bod mewn costau asiantaethau a fu'n heriol i bob Awdurdod Lleol. Gan fod bwlch amser sylweddol weithiau rhwng cael staff parhaol, yn enwedig yn yr adran gofal cymdeithasol plant, rhaid i ni ddibynnu ar staff asiantaeth i sicrhau nad oedd unrhyw swyddi gwag yn y maes hwn.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mai her wirioneddol oedd bod llawer o'r ymgeiswyr llwyddiannus eisoes yn ymgeiswyr mewnol ac felly roedd yna swyddi gwag newydd yn bod cyn gynted ag y byddai hen rai wedi'u llenwi. O ganlyniad i hyn bu adolygiad o'r maes gwasanaeth ac rydym wedi datblygu swydd gwaith cymdeithasol mwy profiadol ac mae hysbysebion ar gyfer y swydd hon wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar.

Lleisiodd Aelod bryderon ynghylch gweithwyr cymdeithasol yn symud i awdurdodau eraill a gall cadw staff fod yn heriol. Gofynnodd a oedd unrhyw drafodaethau ar lefel genedlaethol ynglŷn â thelerau ac amodau cenedlaethol fel nad oedd angen i awdurdodau lleol gystadlu â'i gilydd. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar hyn a chefnogodd y syniad o delerau ac amodau cenedlaethol. Roedd pob awdurdod lleol wedi cael profiad o'r problemau hyn a hynny ers peth amser ac roedd gan weithwyr

proffesiynol gwerthfawr eraill eisoes delerau ac amodau cenedlaethol, er enghraifft athrawon, niysys a meddygon i enwi ond rhai.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod llawer o feichiau gweinyddol yn ymwneud â gweithwyr cymdeithasol a bod hyn yn rhywbeth yr oedd angen ymchwilio iddo er mwyn ceisio lleihau'r baich hwn a sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cael mwy o amser gyda phlant a theuluoedd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod gan lawer o weithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau eraill y gallu i ymgymryd â rolau cymorth ychwanegol a bod hynny wedi bod yn llwyddiannus a bod yr awdurdodau lleol hynny yn ddeniadol i weithwyr cymdeithasol; felly roedd hyn yn rhywbeth roeddem ni hefyd yn dymuno ei roi ar waith.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant amlinelliad mewn perthynas â SSW6 ar ba daliadau uniongyrchol oedd o fewn yr adran gwasanaethau plant.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion hefyd, o ystyried y cynnydd yn nifer y bobl hyn dros y blynnyddoedd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod yna gynnydd yn wir yn y maes hwn hefyd; roedd y pwysau yno ond nid yn yr un modd ag yr oedd ar gyfer gofal cymdeithasol plant, a chyda gofal cymdeithasol oedolion roedd y taliadau yn caniatáu mwy o hyblygrwydd gofal gan yr oedolyn ei hun neu aelodau o'r teulu sy'n eu cefnogi.

Gofynnodd y Cadeirydd, mewn perthynas â SSW7, a ellid rhoi rhywfaint o eglurhad ar y cynnydd mewn costau.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hyn yn ymwneud ag adroddiad Cabinet a ddygwyd gerbron nifer o fisoedd yn ôl ar ail-dendro ein gwasanaethau Byw â Chymorth. Dros nifer o flynyddoedd, roeddem wedi bod yn gweld costau uwch gan ddarparwyr ac felly roedd y £650,000 yn gost a ragwelwyd wrth fynd i mewn i 22/23.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles drosolwg byr ar SSW1 yn Atodiad B i'r Aelodau. Soniodd y Cadeirydd fod pob un o'r tri statws RAG ar gyfer cynigion SSW wedi'u rhestru'n goch a gofynnodd am ymhelaethiad ar y risgiau hyn. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y rhain yn gysylltiedig â'r sefyllfa y mae'r Cyngor yn ei gael ei hun ynddi yn dilyn Covid a'r galw cynyddol ar wasanaethau o ganlyniad i'r cyfnodau clo estynedig. Gall y pwysau cynyddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl gynyddu'r angen am wasanaethau yn ogystal ag effeithiau 'Covid hir' nad ydynt yn cael eu deall yn llawn. Yn achos y gwasanaethau sy'n ailagor ac yn dod yn debycach i'r cyfnod cyn-covid, mae'r pwysau wedi lleihau ond gallai hyn droi'n ôl pe bai lefelau'r cyfyngiadau yn dychwelyd.

Gofynnodd y Cadeirydd, ar ran Aelod, ynglŷn â'r genhedlaeth hyn a'r rhai sy'n gyfrifiadurol anlythrennog a sicrhau nad oedd y rhain yn cael eu hanghofio. Roedd ganddi bryderon penodol y gallai pobl deimlo'n unig ac efallai na allent gael at wasanaethau oherwydd diffyg defnydd o offer electronig, cost band eang ac ati ac nad oedd yn ariannol hyfyw i wneud hynny yn unig er mwyn cael mynediad at nifer cyfyngedig o wasanaethau. Credai ei bod yn bwysig cofio bod unigolion allan yno nad oedden nhw'n defnyddio technoleg neu na allent ei defnyddio a bod angen sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar eu cyfer. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod llawer o'r technolegau a ddefnyddir yn datblygu o ran eu galluoedd a bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol fel rhan o becynnau

gofal. Enghraifft o hyn oedd y synwryddion gwely sy'n gallu canfod gweithgareddau anarferol e.e. os oedd y person fel arfer yn y gwely ar adegau penodol neu am gyfnodau penodol o amser, gall y synwryddion ganfod pan nad ydynt yno am unrhyw gyfnod o amser a rhybuddio eu gofalwyr; felly nid yw technoleg gynorthwyol yn cymryd lle gwasanaeth gofal personol ond yn hytrach mae'n fantais ychwanegol.

Soniodd yr Arweinydd bod nifer o gynigion yn cael eu trafod fel rhan o'r CCRCD o ran hybu cysylltedd mewn ardaloedd gwledig drwy drigolion a busnesau.

Gofynnodd Aelod a fu gostyngiad yn y defnydd o wasanaethau dydd. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y bu gostyngiad ac roeddem wedi gweld bod llawer o bobl a fyddai fel arfer wedi defnyddio'r gwasanaethau dydd bellach yn mwynhau'r gofal a'r cymorth sy'n cael eu rhoi iddynt mewn ffyrdd eraill o fewn eu cymunedau eu hunain. Ychwanegodd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ddarpariaethau mwy arbenigol ac yn ddiweddar roedd gwasanaeth dementia yn rhedeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr a fydd yn debygol o weld cynnydd yn y defnydd a wneir ohono; felly roedd hyn yn golygu bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu mewn gwahanol ffyrdd a oedd yn fwy addas i anghenion unigol a gwasanaethau eraill mewn ffyrdd sy'n cael eu ffafrio gan y defnyddiwr. Ychwanegodd yr Arweinydd mai un o'r gwasanaethau a ddarperir oedd gwersi nofio i bobl â dementia a'u gofalwyr ac roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Soniodd Aelod, mewn perthynas â SSW2 o Atodiad B, sut oedd y ffyrdd newydd o weithio yn delio â heriau gweithio gartref a phobl yn llenwi ffurflenni dros y ffôn. Ei phryder hi oedd nad oedd am i neb ddisgyn drwy'r rhwyd. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y bydd llawer o wasanaethau'n dechrau symud yn araf mewn ffordd gyfunol er mwyn sicrhau y byddai unrhyw un sy'n cael anawsterau yn dal i allu cael cymorth wyneb yn wyneb ac felly'r nod oedd defnyddio'r gorau o ddau fyd o ran gweithio a darparu gwasanaethau.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod anghenion pobl yn hollbwysig i'r broses ailfodelu a gwneud penderfyniadau a bod hyn yn rhywbeth yr oedd gwaith yn parhau i gael ei wneud arno er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n addas at ddiben pawb. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod naratif y gwasanaethau cymdeithasol wedi symud gan ddod yn rhywbeth gaiff ei arwain yn fwy gan ddefnyddwyr a gofynnodd beth na allwch chi ei wneud, a beth allwn ei wneud i'ch helpu.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at bwynt yn ymwneud â CW3 yn Atodiad 1 am y cyllid newydd oedd wedi'i neilltuo i gwrdd â'r pwysau parhaus ar y gyllideb o ganlyniad i bandemig Covid19. Dywedodd y byddai nifer o faterion allai ddod i'r amlwg oedd yn anodd eu rhagweld a bod y cyllid o £1 filiwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd. Gan fod ffigwr y setliad yn uwch na'r disgwyl gall hyn ein galluogi i ymlacio ond gyda phwysau a galwadau parhaus roedd yn bwysig peidio ag ymlacio gormod ac felly gall y cyllid a neilltuwyd cynorthwyo gyda rhywfaint o'r pwysau all godi.

Argymhellion:

1. Mewn perthynas â phwysau ar y gyllideb SSW5, argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried llobio Llywodraeth Cymru i bennu cyflog cenedlaethol, telerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol er mwyn lliniaru'r pwysau ar Awdurdodau Lleol o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol Plant, tebyg i'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer athrawon, yr heddlu a nyrsys.
2. Yn ogystal â'r uchod, lleisiodd y Pwyllgor bryder ynghylch dibyniaeth sylweddol a chost bosibl staff asiantaeth yn y Gwasanaethau Plant a gofynnodd am sicrwydd bod y

sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus a bod popeth y gellir ei wneud i'w leihau yn cael ei ystyried.

3. Mewn perthynas â chynnig SSW1 i leihau'r gyllideb, argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cau allan gan y defnydd o dechnoleg / darpariaeth gwasanaeth digidol.

4. Mewn perthynas â chynnig lleihau cyllideb SSW2, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod ystyried ffyrdd newydd o weithio yn cynnwys opsiynau ar gyfer gwasanaeth wyneb yn wyneb e.e. ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu ymgysylltu mewn ffyrdd eraill e.e. drwy lenwi ffurflenni dros y ffôn, etc.

5. Mewn perthynas â chynnig lleihau'r gyllideb SSW3, awgrymodd y Pwyllgor fod canfyddiadau negyddol i'r defnydd o'r term 'ailfodelu gwasanaethau' a gallai hyn gael effaith andwyol ar staff a defnyddwyr gwasanaeth ac nid oedd yn egluro'r eiriolaeth a'r ymgynghori helaeth oedd yn digwydd er mwyn gwrandao ar ddymuniadau defnyddwyr gwasanaeth; argymhellodd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i derminoleg fwy cadarnhaol ac esboniad o linell y gyllideb, megis teilwra neu welliant parhaus di-dor, ac ati.

6. Mewn perthynas â sylwadau cyffredinol yn ymwneud â phwysau ar y gyllideb CW3, argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried adolygu'r pwysau o £1M, oherwydd maint y ddibyniaeth sylweddol ar hen gronfa galedi Llywodraeth Cymru gan nifer o wasanaethau, gan gynnwys y rheiny oddi mewn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant; roedd pryder y gallai'r ffigwr fod yn annigonol ac y gallai gostyngiad yn y gwasanaeth a ddarperir ddilyn.

3. **MATERION BRYD**

Dim.

This page is intentionally left blank

Presennol

Y Cynghorydd AJ Williams – Cadeirydd

S Aspey
SK Dendy

MC Clarke
JE Lewis

C L C Davies
G Thomas

PA Davies
KJ Watts

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Hughes, M Jones, MJ Kearn, AA Pucella a/ac DBF White

Swyddogion:

| | |
|-----------------|--|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grwp, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau |

Invitees:

| | |
|---------------------------|---|
| Councillor Huw David | Arweinydd |
| Councillor Jane Gebbie | Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Robert Goodwin | Rheolwr Ardal Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Pen-y-bont |
| Simon Gwynne | Rheolwr Partneriaethau, Halo |
| Richard Hughes | Prif Weithredwr, Awen |
| Councillor Dhanisha Patel | Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol |
| Scott Rolfe | Prif Swyddog Gweithredol, Halo |
| Kay Baker | Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaethau, BAVO |

6. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganwyd y Datganiadau canlynol o fuddiannau yn yr adroddiad ar Gynnydd o ran Cyflawni Blaenoriaethau ar gyfer Llesiant, Hamdden a Gwasanaethau Diwylliannol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel a ganlyn:

Datganwyd diddordeb personol gan y Cynghorydd Janice Lewis yn yr adroddiad fel defnyddiwr y Gwasanaeth Llyfrgell ac fel Gwirfoddolwr yn helpu i redeg Canolfan Gymunedol Llansanffraid.

Datganodd y Cynghorydd Dhanisha Patel fuddiant personol yn yr adroddiad fel Aelod o Gyngor Cymuned Llansanffraid.

Datganodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw David fuddiant personol yn yr adroddiad, gan ei fod yn Gadeirydd Cymdeithas Gymunedol Cefn Cribwr.

7. CYNNYDD O RAN CYFLAWNI BLAENORIAETHAU AR GYFER GWASANAETHAU LLESIANT, HAMDDEN A DIWYLLIANNOL YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr adroddiad. Pwysleisiodd bwysigrwydd Craffu wrth ystyried yr adroddiad, gan fod gwasanaethau hamdden a diwylliannol, a'u dull llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod ar flaen eu hymatebion yn ystod bron dwy flynedd ddiwethaf y pandemig Covid. Roedd angen i'r gwasanaethau hyn fod ar flaen eu hymatebion o hyd yn ystod y cyfnod adfer dros y blynyddoedd nesaf.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles fod yr adroddiad yn edrych ar gyfleoedd hamdden a diwylliannol, yr hyn sydd wedi'i wneud a beth fyddai'n cael ei wneud i wella hygyrchedd, dileu rhwystrau a phethau y gellir eu datblygu i gefnogi llesiant unigolion a chymunedau, yn gysylltiedig ag adferiad COVID y Cyngor a'r Gymuned. Esboniodd fod ganddynt gynrychiolaeth hefyd i ddangos y gwaith a gafodd ei wneud gyda'r Trydydd Sector a thrwy eu dulliau adeiladu cymunedau gwydn a ble y gellid datblygu hynny yn y dyfodol. I ychwanegu at hynny, roeddent wedi cynnwys rhai o'r meysydd gwasanaeth y mae'r Gwasanaeth Atal a Lles yn eu darparu'n uniongyrchol o ran rhaglenni egniol i bobl ifanc, gwasanaethau byw'n iach a datblygu chwarae.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4 o'r adroddiad a chyfranogiad yn y rhaglenni dysgu nofio. Gofynnodd a fyddai hyn yn cael ei ailsefydlu yn 2022, a phryd y byddai hynny'n digwydd wrth i'r adroddiad ddweud bod ganddynt ôl-groniad o un mis ar hugain.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles mai'r ffordd y mae nofio mewn ysgolion yn cael ei gefnogi ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd bod y buddsoddiad yn cael ei ddirprwyo i'r ysgolion. Yna trefnodd yr ysgol sut yr oeddent am ddefnyddio'r buddsoddiad i fynychu'r rhaglenni hynny. O ran y bobl ifanc a oedd wedi gadael yr ysgol gynradd ac a oedd bellach yn mynychu'r ysgol uwchradd, roedd angen i'r prosiect symud y tu hwnt i nofio yn yr ysgol, a bu'n rhaid edrych ar raglenni mwy cyfannol. Roedd hyn yn cynnwys sut y maent yn targedu rhaglenni fel y fenter nofio am ddim, lle gwyddent fod gan bobl rwystrau megis y gost o ddysgu nofio. Roedd angen edrych ar sut maent yn sicrhau bod rhaglenni'n ar gael i'r bobl hynny na fyddent yn cymryd rhan mewn unrhyw ffordd arall. Roedd hyn yn her wirioneddol wrth symud ymlaen, ond yn un yr oedd angen iddi fod yn gadarn ar y radar.

Dywedodd Rheolwr Partneriaeth Halo fod rhaglen deunaw wythnos o nofio mewn ysgolion wedi aildechrau. O fis Ionawr roedd ganddynt gynllun deunaw wythnos ar gyfer gweddill y flwyddyn honno hyd at fis Gorffennaf o ysgolion yn mynd yn ôl, a olygai fod ganddynt 30 o ysgolion gwahanol yn ôl. Mae 118 o wahanol grwpiau, felly gwahanol grwpiau blwyddyn neu ddisgyblion gwahanol yn yr un grŵp blwyddyn yn mynd ar wahanol adegau yn seiliedig ar nifer yr ysgolion, gan fod cyfyngiadau o hyd ar gapasiti.

Mynegodd Aelod ei bryder bod y pwll nofio ym Maesteg ar gau ar ddydd Sul.

Dywedodd Rheolwr Partneriaeth Halo fod sawl rhaglen gwersi yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn ym Maesteg ac ar rai penwythnosau ar ddydd Sul hefyd. Esboniodd eu bod wedi cau'n gynharach yn hanesyddol ar sail capasiti, defnydd a demograffeg, felly dros y blynyddoedd bu ychydig yn llai o raglenni ym Maesteg yn seiliedig ar y patrwm defnydd hwnnw. O ran yr elfen adnoddau, roeddent yn cael heriau o ran athrawon nofio ac roeddent yn cynnal sawl rhaglen eleni lle'r oeddent yn cyflwyno cyrsiau athrawon nofio ac yn cynnig hynny i nifer o bartneriaid ac i'r boblogaeth o ran mynediad. Maent felly yn chwilio am bobl newydd i ddod i'w rhaglen wersi ac addysgu hefyd.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles ar gyd-destun ehangach, pan oedd popeth wedi'i gau ac yna wedi cael caniatâd i ailagor ar wahanol adegau a chyfyngiadau, safbwynt y Cyngor oedd ailadeiladu gwasanaethau o'r gwaelod. Nid oedd angen i bobeth fod yn union fel y bu o'r blaen, felly roedd y cyfleoedd a oedd wedi'u datblygu o

amgylch cyrraedd pobl yn ddigidol neu drwy raglenni allgymorth yn y gymysgedd yn ystod y cyfnod adfer. Dywedodd ei fod yn ymwneud ag ailadeiladu'r busnes o'r gwaelod yn raddol a chynyddu'r cyfleoedd a gwneud y defnydd gorau ohono wrth iddynt fynd ar y daith honno.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.7 yr adroddiad ynghylch y Rhaglen Beilot Nofio awtistiaeth a'r cynlluniau i ehangu'r cyfle a gofynnodd a oedd amserlen ar gyfer y cynlluniau hynny.

Dywedodd Rheolwr Partneriaeth Halo y byddai rhaglen arall yn cael ei chynnal ym mis Chwefror a bod Cydgysylltydd Cymunedau Egnïol Pobl Ifanc wedi'i recriwtio i'r Tîm i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen honno'n fwy rheolaidd. Y dyhead felly oedd cynnal y rhaglenni hynny'n wythnosol.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.8 y Rhaglen Teimlo'n Dda am Oes a oedd wedi bod yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia neu nam gwybyddol a gofynnodd a oedd mwy o gyfle i ymgysylltu â phobl ynglŷn â hyn.

Ymatebodd Rheolwr Partneriaeth Halo eu bod wedi cyflwyno cais i ddatblygu'r Rhaglen ar draws mwy o ganolfannau a'u bod hefyd wedi cyflwyno cais gan y Loteri Genedlaethol i'w gefnogi a'i ddatblygu dros bum mlynedd. Dywedodd fod y gefnogaeth a gawsant gan eu partneriaid hefyd yn bwysig o ran sut yr oeddent yn cyflawni.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles ei fod yn enghraifft wych ac yn dangos model diddorol o sut y daeth nifer o bartneriaid at ei gilydd i gyflwyno rhaglen yn hytrach nag yn unigol.

Cyfeiriodd Aelod at Gynllun Clicio a Chasglu'r Gwasanaeth Llyfrgell ym mharagraff 4.12 a mynegodd bryder am y rhai a oedd wedi'u allgau'n ddigidol a gofynnodd sut y gallent barhau i ddefnyddio eu llyfrgelloedd.

Dywedodd Prif Weithredwr Awen fod clicio a chasglu ychydig yn gamarweiniol gan ei fod yn galw a chasglu, lle gallai pobl ffonio eu llyfrgell leol ac archebu'r llyfrau a allai arwain at y gwasanaeth danfon i'r cartref. Dywedodd fod y gwasanaeth danfon i'r cartref wedi ennill llawer o ganmoliaeth am y ffordd yr oedd wedi gallu ymgysylltu â phobl a oedd wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn ystod y pandemig. Sicrhaodd fod sawl ffordd o gysylltu â'r llyfrgell ar wahân i ar-lein.

Cyfeiriodd Aelod at Lyfrau ar Olwynion ym mharagraff 4.13 o'r adroddiad a gofynnodd sut y cafodd pobl wybod am y gwasanaeth, gan nad oeddent wedi gweld cyhoeddusrwydd am y cynllun ac wedi gofyn a oedd y bysiau llyfrgell yn dal i fynd allan.

Esboniodd Prif Weithredwr Awen fod newid wedi bod yn y gwasanaeth y cytunwyd arno gyda'r Cyngor cyn y pandemig, ac roeddent yn gobeithio gwella ac ehangu arno. Gyda'r Gwasanaeth Dosbarthu Cartref hwn, roeddent yn gallu cyrraedd mwy o bobl yn amlach a'r rhai yr oedd gwir angen y gwasanaeth arnynt. Dywedodd eu bod yn gweithio'n agos gyda Chydgyssylltwyr Cymunedol Lleol, gyda Rheolwr y Grŵp Atal a Lles a'i Dîm ac eraill i geisio cyfeirio pobl at y gwasanaeth, yn ogystal â hyrwyddo teuluoedd ac eraill drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd eu bod yn edrych ar sut y gellid cyfeirio pobl yn fwy ffurfiol drwy'r system gofal cymdeithasol a fyddai'n cynyddu nifer y bobl a oedd yn ymwybodol ac yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles eisiau ymhelaethu ar y pwynt digidol ac esboniodd fod rôl llyfrgelloedd a chefnogi'r rhai a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn fater o bwys. Dywedodd mai un o'r trafodaethau mwyaf sy'n digwydd yw sut yr oedd y llyfrgelloedd bob amser wedi gweithredu fel pwyntiau gwybodaeth y Cyngor, gan gefnogi pobl na

fyddent efallai'n mynd i swyddfeydd y cyngor. Felly wrth edrych ymlaen at y dyfodol, cafwyd trafodaethau ar sut y gellid hyfforddi staff i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yna gefnogi pobl i gael mynediad i'r ap 'fy nghyngor'.

Cyfeiriodd Aelod at y gwasanaeth dosbarthu a sut yr oedd pobl yn dewis pa lyfrau yr oeddent am eu cael. Roedd hi'n meddwl tybed a anfonwyd rhestr atynt o'r hyn a oedd ar gael iddynt neu a gafodd y llyfrau eu dewis ar eu rhan.

Eglurodd Prif Weithredwr Awen mai un o'r pethau yr oedd cwsmeriaid yn ei hoffi am y system gasglu oedd y gallent ddewis eu llyfrau eu hunain, sef y system gais draddodiadol. Fodd bynnag, gallai staff y llyfrgell a oedd yn adnabod eu cwsmeriaid ddewis llyfrau ar eu rhan gan eu bod yn gallu gweld beth yr oeddent wedi'i ddarllen o'r blaen felly ni fyddai unrhyw ddyblygu ac roedd yn wasanaeth yr oedd pobl yn ei hoffi.

Gofynnodd Aelod oherwydd y cynnydd yn y galw digidol a fyddent yn dal i gadw llyfrau papur a llyfrau print bras ar gyfer aelodau o'r gymuned a oedd eu hangen.

Dywedodd Prif Weithredwr Awen mai dyna'r rhan fwyaf o'r hyn yr oeddent yn ei ddarparu ac er bod pobl yn defnyddio'u hadnoddau mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys llyfrau, y buddsoddiad mwyaf sylweddol a wnaethant fyddai mewn print ffisegol a dyma'r cyfrwng benthyca mwyaf poblogaidd o hyd y pryd hynny.

Dywedodd yr Arweinydd fod cynhwysiant digidol yn bwysig, ac un maes o lwyddiant oedd y gwaith yr oeddent wedi'i wneud gyda gofawyr a'r gwaith a wnaed drwy ysgolion i sicrhau na fyddai plant yn cael eu hallgáu'n ddigidol. Dywedodd y byddai gwaith yn parhau o gwmpas estyn allan at y bobl hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gan eu bod yn cydnabod ei fod yn waith parhaus.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles fod y buddsoddiad yn y blynyddoedd diwethaf i gyfleusterau ac adnoddau llyfrgelloedd yn parhau'n gadarnhaol. Esboniodd fod y pethau mae llyfrgelloedd yn eu gwneud yn ehangach na gwasanaethau digidol a llyfrau, o ran grwpiau cymunedol, clybiau cymorth i deuluoedd ifanc a chlybiau gwaith cartref, felly roedd datblygu llyfrgelloedd yn fannau bywiog a diddorol i'r boblogaeth ehangach yn parhau i fod yn bwysig.

Dywedodd Prif Weithredwr Awen na ddylent danbriso'r ffaith bod llawer o bobl hyn yn ddigidol craff felly yn ogystal â sicrhau nad oedd pobl yn cael eu hallgáu, roedd yn rhaid iddynt hefyd wneud y gorau o'r technolegau a'r llwyfannau newydd sydd ar gael iddynt. Esboniodd fod y gwasanaeth ehangach sy'n cael ei gynnal mewn llyfrgelloedd wedi'i golli gan bobl drwy'r pandemig ac fel y nodwyd, dim ond ers tua thri mis yr oedd llyfrgelloedd wedi'u cau, ac roedd yn credu eu bod wedi cynnal gwasanaeth a gafodd ei groesawu gan lawer o bobl.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod llyfrgelloedd yn Ganolfannau Gwybodaeth Gymunedol yn ogystal â lle i ddarparu llyfrau ac adnoddau darllen i bobl. Roeddent yn ganolog i'r gymuned ac roedd eu gwneud nhw a chyfleusterau cymunedol eraill yn lleoedd bywiog lle'r oedd pobl yn dod at ei gilydd ac yn diwallu eu hanghenion yn bwysig. Cynghorodd ddefnyddio adnoddau digidol a pheidio â bod ofn eu defnyddio gyda'u poblogaeth hyn yn ogystal â'r boblogaeth iau gan y byddai'n galluogi pobl i gysylltu. Roedd yn strategaeth gyffredinol ac yn gysylltiedig â rhywfaint o'r gwaith sy'n ymwneud â Chydgysylltwyr Ardaloedd Lleol i gysylltu pobl â'r hyn sy'n gweithio iddynt ac roedd gwasanaethau digidol yn rhan o'r strategaeth honno i gyd ond nid y cyfan ohoni.

Cyfeiriodd Aelod at y gwelliannau sy'n cael eu gwneud mewn gwahanol lyfrgelloedd, ond ni soniwyd am Lyfrgelloedd Abercynffig a Sarn.

Dyweddodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles fod ganddynt ddyheadau bod yr holl asedau, boed yn hamdden, yn ddiwylliannol neu'n gymunedol, yn fodern ac yn cyd-fynd ag anghenion pobl. Roedd gallu gwneud hynny i gyd mewn un ffrwd yn her a meddyliodd gyda'r buddsoddiad yr oeddent wedi'i sicrhau eu bod wedi gwneud yn dda allan o ffrydiau Llywodraeth Cymru. Ond roedd yn un prosiect ar y tro ac roedd Abercynffig wedi'i drafod yn seiliedig ar ei faint, ei raddfa a'i botensial i wneud pethau eraill.

Dyweddodd Prif Weithredwr Awen fod holl safleoedd llyfrgell yn cael eu hystyried lle'r oedd buddsoddiad yn y cwestiwn. Llyfrgell Sarn oedd un o'r rhai mwyaf diweddar i'w datblygu gan ei bod yn rhan o'r gwaith ailddatblygu canolfannau cymunedol a gynhaliwyd yn 2011-12 ac a oedd ag un o'r adnoddau technoleg gwybodaeth fwyaf helaeth. Esboniodd eu bod yn cadw golwg i weld beth y gallent ei wneud yn well a mwy ohono i wella lleoedd i blant a phobl ifanc hefyd, ac roedd yn gwybod bod hynny'n flaenoriaeth iddynt fel Cyngor. Yn sicr, nid oedd system giwio, ac edrychwyd ar bob llyfrgell yn barhaus.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.26 yn yr adroddiad a Chynllun Cyfaill Gohebol a gwirfoddolwyr. Gofynnodd a oedd pob ysgol gynradd wedi cael gwahoddiad neu a oedd nifer detholedig wedi cael gwahoddiad ar gyfer cynllun peilot. Credai y byddai'n rhywbeth y gellid ei gyflwyno i bob ysgol gan y byddai'n helpu gydag ysgrifennu ac yn helpu'r rhai a allai deimlo'n ynysig.

Dyweddodd Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaeth, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) mai dim ond un ysgol yr oeddent wedi ymgysylltu â hi, gan fod cronfa benodol o arian y bu'n rhaid iddynt ddefnyddio dros gyfnod o dri i bedwar mis. Roedd yn gynllun peilot ac roedd yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cynnwys y canlyniadau. Dywedodd ei fod yn ddarn da o waith ond bod angen y gallu i'w gynnal a bod materion diogelu i'w rheoli hefyd.

Dyweddodd Rheolwr y Grŵp Atal a Lles y gallai pethau syml fynd yn bell, gan siarad am allgau digidol a cheisio datblygu gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau, roeddent wedi dechrau agenda o fod yn gymuned sy'n ystyriol o oedran ac edrych ar sut y maent yn dod â gwahanol grwpiau poblogaeth at ei gilydd ac yn ychwanegu gwerth, ac roedd hyn wedi bod yn enghraifft dda ohono. Dywedodd eu bod wedi ceisio cael rhywfaint o fuddsoddiad ynysu ond nad oeddent wedi gallu gwneud cais y flwyddyn honno gan fod Llywodraeth Cymru wedi dymuno buddsoddi symiau llai i grwpiau'r trydydd sector. Fodd bynnag, roedd gan y peilot rywbeth i'w gynnig o ran ehangu dull ehangach o fod yn gyfaill a chefnogi unigrywdd.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.22 yn yr adroddiad a gofynnodd a oedd y gwaith wedi'i wneud drwy BAVO oherwydd drwy gydol y pandemig roeddent wedi bod yn hanfodol i ddarparu gwirfoddolwyr a dod â gwirfoddolwyr i mewn i gynorthwyo lle bo angen ledled y gymuned.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Atal a Lles fod eu partneriaeth a'r buddsoddiad yr oeddent wedi llwyddo i'w sicrhau wedi cefnogi'r Rolau Llywio Cymunedol a Datblygu Gwirfoddolwyr o fewn BAVO. Dywedodd fod llwyfan cryf wedi bod yn y Gorchymyn Efydd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a BAVO o ran safleoedd a phwy oedd yn y sefyllfa orau i ymateb. Dywedodd fod BAVO yn darparu'r arweinyddiaeth a'r adnodd ar gyfer yr hyn a fwriadwyd yn wreiddiol i fod yn rhaglen fach gyda thri chant o fuddiolwyr ond ei fod wedi profi ei fod yn gallu cefnogi niferoedd uchel yn seiliedig ar Gysylltiadau Cymunedol.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaeth, BAVO glod i'r staff o fewn y sefydliad a'r Comisiynwyr am ganiatáu iddynt arallgyfeirio eu gwasanaethau i wneud yr

hyn yr oedd ei angen yn ystod y pandemig. Yr oeddent yn awr yn ceisio nid yn unig i barhau i gyflawni'r hyn yr oedd pobl yn credu yr oedd ei angen arnynt, ond hefyd ceisio cefnogi ac addysgu pobl sut y gallent ei wneud eu hunain.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn dymuno adeiladu ar y ffordd y maent yn symud ymlaen gyda'i gilydd gan ei bod yn credu bod y rhaglen, a oedd wedi'i chydabod yn y gwerthusiadau, yr uchelgais gychwynol, cymunedau dyfeisgar a gwydn yn ymwneud â chefnogi cymunedau ac unigolion i gefnogi eu llesiant eu hunain yn gynaliadwy. Dywedodd eu bod bellach yn defnyddio rhywfaint o'u cyllid adfer gofal cymdeithasol ac yn ceisio cynllunio drwy'r Cyllid Integreiddio Rhanbarthol newydd sy'n mynd i mewn i'r flwyddyn nesaf, sut y maent yn cefnogi cymunedau ac unigolion i wella a dychwelyd i fwriadau gwreiddiol y rhaglen.

Gofynnodd Aelod a oedd yr holl ganolfannau cymunedol yn y fwrdeistref bellach ar waith ac yn agored i bobl eu defnyddio.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Atal a Lles ei fod yn ddarlun cymysg nawr ac yn ystod y pandemig. Credai fod canolfannau cymunedol a oedd yn ffynnu ac yn cefnogi'r ystod eang o wasanaethau cyhoeddus hanfodol yn ystod y pandemig ac yna roedd canolfannau eraill a wynebodd heriau gwahanol. Esboniodd mai un o'r pethau yr oeddent yn edrych arno oedd edrych yn gynyddol ar arfogi canolfannau cymunedol yn ddigidol i gysylltu â'i gilydd, a chyda chysyniadau neuadd bentref rhithwir. Roeddynt hefyd yn edrych ar gefnogi swyddfa hybrid i'r rhai sy'n gallu neu nad yw'n gallu mynychu'n gorfforol bob amser yn seiliedig ar sail bod yn fregus. Gall gysylltu â'r Agenda Carbon Niwtral yn y dyfodol lle nad oes angen i bobl fynychu lleoliad canolog bob amser, ond ni fyddai hynny'n ateb cyflym.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y sefyllfa gyllido wedi bod yn anodd yn ei chanolfan gymunedol gan nad oedd ei incwm gymaint â chyn y pandemig. Ond yn ffodus roedd ganddynt gysylltydd BAVO yn gweithio allan o'u canolfan gymunedol, a ddarparodd wybodaeth, cymorth, arweiniad a chynghor mewn perthynas ag unrhyw geisiadau grant yr oeddent yn eu gwneud. Yr her fwyaf oedd y newidiadau cyson gan nad oeddent yn gwybod pa ddarpariaeth gwasanaeth y gallent ei darparu gan fod y rheoliadau wedi newid yn gyson. Roedd yn ymwybodol o ganolfannau cymunedol eraill nad oedd wedi ailagor eto a oedd yn drist gan fod angen canolfan gymunedol ar bob cymuned, fel canolbwynt canolog.

Dywedodd Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaeth, BAVO, ei bod yn ymddangos mai dyna oedd y patrwm ar draws y Fwrdeistref, gyda BAVO yn cefnogi rhai Canolfannau yn unigol mewn gwahanol ffyrdd. Roedd angen y gefnogaeth wrth symud ymlaen, ond nid un dull gweithredu sy'n addas i bawb. Roedd yn ymwneud â gallu canolfannau unigol i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i fwrw ymlaen â'r hyn a fyddai o fudd yn eu hardal.

Cytunodd yr Arweinydd fod y profiad yn wahanol ar draws y Fwrdeistref Sirol a bu cynnydd mewn gweithgarwch oherwydd bod pobl yn awyddus i ddychwelyd i gyswllt personol, wyneb yn wyneb. Dywedodd eu bod hefyd yn parhau i weld mentrau newydd a allai ddarparu defnydd ychwanegol, er iddo dynnu sylw at y ffaith nad oedd rhai canolfannau cymunedol ar gael o hyd gan eu bod wedi cael eu defnyddio fel canolfannau profi ar gyfer Covid. Cynghorodd ganolfannau cymunedol a oedd yn ei chael hi'n anodd i gysylltu â BAVO a'r Awdurdod, gan eu bod yn cydnabod eu pwysigrwydd.

Gofynnodd Aelod a fu cynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc ers y pandemig.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd yn gallu rhoi union ffigur y pryd hynny, ond eu bod yn gwneud llawer o waith. Un o'r heriau allweddol wrth fynd i'r afael yn briodol ag anghenion gofawyr ifanc oedd adnabyddiaeth. Byddai'r gwaith yr oeddent wedi bod yn ei wneud drwy'r Cerdyn Gofalwyr Ifanc a'r gwaith yr oedd angen iddynt ei wneud wrth symud ymlaen gydag ysgolion, yn hanfodol o ran y broses adnabod gynnar honno fel y gallent roi'r gofal a'r cymorth cywir, a'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod yn anodd iawn gan nad oedd pobl ifanc yn nodi eu bod yn ofalwyr ifanc. Gofynnodd i'r Aelodau, os ydynt yn gweld gofawr ifanc yn eu plith, y byddai'n ddefnyddiol gallu nodi a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp, Atal a Lles fod y Tîm Atal, y tu hwnt i'r agweddau ar arferion gwaith cymdeithasol, yn ceisio ymgysylltu'n rhagweithiol, yn enwedig â phobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu. Dywedodd fod dwy raglen wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio'r Grŵp Ymgynghori Ieuenctid o bobl i edrych ar y Cerdyn Gofalwyr Ifanc a chyflwyno dull newydd Llywodraeth Cymru o nodi gofawr ifanc a'r hyn y gallai partneriaid ei wneud i ddatgloi ar eu cyfer o ran cyfleoedd cymdeithasol neu ymrwymadau mewn gwahanol bethau a oedd yn ystyrlon iddynt. Drwy eu gwaith gydag ysgolion, roedd ganddynt nifer o grwpiau rhwydwaith felly roeddent wedi bod yn ymgysylltu â 204 o ofalwyr ifanc i nodi sut y byddai'r rhwydwaith yn edrych, sut y byddent yn cynnig y byddai'n rhedeg a'r hyn yr oedd yn canolbwyntio arno.

Cyfeiriodd Aelod at chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn yr adroddiad ar gyfer pobl ifanc a gofynnodd am y plant iau i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn heini ac yn egniol a dal i fyny ar chwaraeon posibl yr oeddent wedi'u colli.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Lles ei bod wedi cyhoeddi'r Gaeaf Llawn Lles, a oedd yn un o'r rhaglenni yr oeddent wedi'u rhoi ar waith. Dywedodd eu bod yn gweithio gyda'u partneriaid a oedd wedi helpu i gyflwyno'r Rhaglen Haf o Hwyl a oedd wedi'i sefydlu i geisio helpu i gymell pobl ifanc i fynd allan, bod yn egniol ac ailintreiddio i gymdeithas.

Dyweddodd Rheolwr y Grŵp, Atal a Lles o ran y Rhaglen Gaeaf Llawn Lles, fod yr ysgolion hefyd wedi cael buddsoddiad uniongyrchol, gyda chydabyddiaeth ar draws y sir bod pobl ifanc wedi cael eu herio'n gyffredinol gan y pandemig. Ychwanegodd y byddai'r rhan fwyaf o bobl wrth symud ymlaen yn gobeithio am fwy o gyfleoedd wyneb yn wyneb a gweld hyn yn parhau i dyfu. Dywedodd fod eu buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru yn parhau, a oedd yn rhywbeth y gallent ei rannu â'r Pwyllgor ynghylch sut y gallai hynny edrych ymlaen ar gyfer 2022 ymlaen.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 8 o'r adroddiad a'r risg a nodwyd o ran cynaliadwyedd y gwahanol fentrau, cynlluniau a danfoniadau a oedd ar y gweill ac roedd yn ymwybodol ei bod yn cymryd amser i ddatblygu mentrau newydd. Gofynnodd beth oedd yr heriau i gyd-fynd â dyheadau Halo ac Awen o ran datblygu a chyflawni, a beth oedd y materion yn ymwneud â diogelwch swyddi staff a datblygu strategaeth hirdymor. Yn olaf, gofynnodd beth oedd canran y trosiant busnes a oedd yn gymharol ddibynnol ar grant tymor byr neu ganolig.

